Mae Budd-daliadau yn newid

# Taflen Wybodaeth Diwygio Lles
# Credyd Cynhwysol

Mae Credyd Cynhwysol yn daliad sengl newydd i bobl sy'n chwilio am waith neu'n ennill incwm isel. Bydd yn disodli:

- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Cymhorthdal Incwm
- Credydau Treth Plant
- Credydau Treth Gwaith
- Budd-dal Tai

## Pryd y bydd Credyd Cynhwysol yn dechrau?

Mae Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno yng Nghaerdydd o fis Tachwedd 2015.

Mae'n cael ei gyflwyno'n raddol. Mae'n golygu os ydych eisoes yn hawlio budd-dal, byddwch yn dal i wneud hynny am gyfnod, nes i DWP gysylltu â chi a rhoi gwybod i chi pryd y bydd Credyd Cynhwysol yn effeithio arnoch.

I ddechrau, cewch eich effeithio os ydych yn gwneud cais newydd am fudd-dal a'ch bod yn sengl, newydd ddod yn ddi-waith, ac wrthi'n chwilio am waith (hynny yw, unrhyw un a fyddai wedi gwneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith gynt). Ni allwch hawlio Credyd Cynhwysol yn ystod y cam cychwynnol hwn os ydych:

- Yn rhan o gwpl
- Yn gyfrifol am unrhyw blant
- Â chyfrifoldebau gofalu
- Ddim yn ffit i weithio
- Yn ddigartref neu'n byw mewn llety â chymorth neu lety dros dro
- Yn berchennog cartref
- Mewn addysg neu ar gwrs hyfforddi

## Hawlio Credyd Cynhwysol

Bydd angen i chi wneud cais newydd am Gredyd Cynhwysol ar-lein ac yna bydd angen i chi fynd i gyfarfod â hyfforddwr gwaith y Ganolfan Waith i gwblhau'ch cais a chyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd y gofynnwyd amdani.

## Sut y caiff Credyd Cynhwysol ei dalu

Telir Credyd Cynhwysol yn wahanol iawn i fudd-daliadau ar hyn o bryd.

Cewch un taliad y mis ac fe'i gwneir mewn ôl-ddyledion. Caiff un taliad ei wneud i'ch banc neu gymdeithas adeiladu.

Bydd unrhyw help a gewch â'ch rhent yn cael ei gynnwys gyda'ch taliad Credyd Cynhwysol a bydd yn rhaid i chi dalu'ch landlord eich hun, hyd yn oed yw'r landlord yn Gymdeithas Dai neu'n Gyngor.

**Mae budd-daliadau'n newid**

**Ydych CHI'n barod?**

CARDIFF CAERDYDD

**www.caerdydd.gov.uk/diwygiolles**

**029 2087 2088**

# Paratoi at Gredyd Cynhwysol

## 1. Ewch Ar-lein

Bydd angen i chi hawlio Credyd Cynhwysol ar-lein; bydd angen cyfrif e-bost arnoch i gwblhau'r cais. Mae help ar gael i holl drigolion Caerdydd. Cynigiwn sesiynau galw heibio anffurfiol am ddim mewn lleoliadau ledled y ddinas i'ch helpu i:

- Defnyddio cyfrifiadur am y tro cyntaf
- Dysgu sgiliau cyfrifiadurol sylfaenol
- Defnyddio'r rhyngrwyd
- Defnyddio bancio ar-lein
- Creu cyfeiriad e-bost

- Cwblhau ceisiadau ar-lein i wneud cais am swyddi neu fudd-daliadau
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, siopa ar-lein, a mwy

## 2. Cyngor Ariannol

Rhaid bod gennych gyfrif banc i gael Credyd Cynhwysol. Rydym wedi llunio llyfryn 'Help gyda bancio' sy'n rhoi gwybodaeth i chi am gyfrifon banc a'ch opsiynau. Gall ein **Tîm Cyngor Ariannol** roi help a chyngor am ddim i chi ar agor cyfrif banc. Mae ein hymgynghorwyr wrth law i egluro ymadroddion a phrosesau banciau, gan wneud yn siŵr eich bod yn deall yn llawn beth yw'ch opsiynau wrth ddelio â banciau.

Bydd angen i chi ddeall sut i reoli cyllideb er mwyn gallu rheoli'ch taliad misol. Mae ein Tîm Cyngor Ariannol yn cynnig gwasanaeth galw heibio bob dydd i'ch helpu i reoli'ch arian, a'ch helpu i fanteisio ar grantiau.

## 3. Paratoi at waith

I gael Credyd Cynhwysol bydd angen i chi ddangos eich bod yn gwneud popeth y gallwch i ddod o hyd i swydd. Mae'r **Gwasanaeth I Mewn I Waith** yn rhoi help am ddim i unrhyw drigolion yng Nghaerdydd sydd am weithio neu wella'u sgiliau i helpu gyda:

- Ysgrifennu CV
- Ffurflenni Cais am Swyddi
- Technegau cyfweld

- Paru Swvddi Ar-lein
- Chwilio am Swydd
- Hyfforddiant Sgiliau Gwaith

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r gwasanaethau uchod ffoniwch ni ar **029 2087 1000** neu ewch i **www.caerdydd.gov.uk/hybiau**

I gael rhagor o wybodaeth am y Credyd Cynhwysol ewch i **www.gov.uk/universal-credit**

**Mae help ar gael mewn sawl iaith yn yr Hybiau.**

**Dim ond canllawiau cyffredinol y mae'r daflen wybodaeth hon yn eu rhoi ac ni ddylid eu trin fel datganiad cyflawn ac awdurdodedig o'r gyfraith.**